# LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT:YMARFER A THEORI

## Pam dewis Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori?

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu yng ngwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu'n bennaf at ddysgwyr sy'n astudio mewn lleoliad addysg bellach ond gall amrywiol ddarparwyr dysg ddarparu'r cymhwyster hwn.

## Beth fyddaf yn ei astudio?

Ymhlith y testunau fydd:

- cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad
- cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar
- ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl
- iechyd, llesiant a datblygiad plant, 0-19 mlwydd oed a ffactorau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad
- rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant

# LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT:YMARFER A THEORI

## Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n cyfuno unedau ymarfer sy'n cael eu hasesu yn y gweithle gyda gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn adlewyrchu lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Mae'n gyfuniad o unedau ymarfer i'w hasesu yn y gweithle, ynghyd â gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd.

Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n dilyn y cymhwyster hwn fod wedi cwblhau, neu'n cwblhau ar hyn o bryd, y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster craidd.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

**Asesir y cymhwyster trwy 90% o asesiad mewnol a 10% o asesiad allanol.**

**Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

- **cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol**
- **portffolio o dystiolaeth**
- **trafodaeth â'u haseswr**
- **arholiad allanol**

## Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori Lefel 2

Bydd cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn caiatáu i ddysgwyr weithio dan oruchwyliaeth fel gweithiwr Lefel 2 Gofal Plant cymwysedig. Gall dysgwyr hefyd ddewis symud ymlaen i'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant